Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Aberhonddu
# Penlan
# Aberhonddu
# Powys
# LD3 9SR

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/07/2012**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg, cyfrwng Saesneg, 11-18 oed sydd â ffrwd Cymraeg mamiaith yw Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Mae wedi'i lleoli ar gampws Penlan yn nhref Aberhonddu, ger Coleg Powys a'r ganolfan hamdden. Mae 768 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae 120 ohonynt yn y chweched dosbarth. Addysgir Cymraeg mamiaith i naw deg chwech o ddisgyblion.

Daw disgyblion o dref Aberhonddu a'r ardal wledig gyfagos, mewn cyfrannau gweddol gyfartal. Maent yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd cymdeithasol, sy'n amrywio o fod yn gymharol ffyniannus i fod yn ddifreintiedig yn economaidd. Mae'r gyfran sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sef 8.9%, ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.6 %.

Mae'r disgyblion a dderbynnir yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan bump y cant ohonynt ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.6%. Mae gan yr ysgol ganolfan anhwylder y sbectrwm awtistig ar y safle.

Mae tua 14% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith neu i safon gyfatebol. Mae dosbarth cyfrwng Cymraeg ym mhob blwyddyn yng nghyfnod allweddol 3. Mae disgyblion yn y dosbarthiadau hyn yn astudio Cymraeg fel mamiaith ac yn dilyn gwyddoniaeth, addysg grefyddol, hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth, addysg bersonol a chymdeithasol a medrau allweddol trwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Yng nghyfnod allweddol 4, mae cyrsiau llawn mewn Cymraeg mamiaith a Llenyddiaeth Gymraeg. Gall disgyblion ddilyn hanes, daearyddiaeth, cerddoriaeth, gwyddoniaeth ac addysg grefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae tua 9% o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, ac fe gaiff tua 6% o ddisgyblion gymorth wrth gael eu haddysgu mewn Saesneg fel iaith ychwanegol.

Ymgymerodd y penaethiaid dros dro presennol â'u rolau yn Ebrill 2011. Mae dirprwy dros dro yn gweithio gyda nhw hefyd, a dyma yw'r uwch dîm arweinyddiaeth.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae'r nodweddion da yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn cynnwys:

- tuedd o wella yng nghyflawniadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf;
- bod y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cymharu'n dda â safonau ysgolion tebyg;
- ymddygiad da disgyblion a'u hagweddau cadarnhaol at ddysgu;
- perthnasoedd gweithio da iawn rhwng athrawon a disgyblion;
- ystod eang o weithgareddau allgyrsiol;
- ethos cynhwysol a chymorth o ansawdd uchel a gynigir i ddisgyblion trwy ganolfan les yr ysgol; a
- phartneriaethau effeithiol gydag ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol.

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- dros y tair blynedd diwethaf, nid yw perfformiad mewn ystod o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn cymharu'n dda â pherfformiad ysgolion tebyg;
- nid yw presenoldeb wedi gwella digon ers yr arolygiad diwethaf, ac mae ymhell islaw presenoldeb mewn ysgolion tebyg;
- nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn ddigon uchel mewn lleiafrif o wersi; a
- bod ansawdd yr asesu a'r adborth i ddisgyblion yn amrywio gormod rhwng ac o fewn pynciau.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- bod adroddiad hunanarfarnu'r ysgol gyfan yn hunanfeirniadol ac yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir;
- bod gan yr ysgol ystod addas o weithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- bod y penaethiaid dros dro wedi dechrau mynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen eu gwella;
- bod llywodraethwyr yn cynyddu eu capasiti i weithredu fel ffrind beirniadol; a
- bod pob un o'r athrawon yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ysgol sydd wedi'u cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Fodd bynnag:

- mae ansawdd adroddiadau arfarnu adrannol a chynlluniau gwella adrannol yn rhy amrywiol;
- nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn dwyn y staff i gyfrif yn ddigon trylwyr am wella deilliannau ar gyfer disgyblion;
- nid yw'r ysgol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r adroddiad arolygu blaenorol yn llawn; ac
- nid oes gan yr ysgol gynlluniau addas i fynd i'r afael â diffyg sylweddol yn y gyllideb.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i staff a llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu:

A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, yn enwedig mewn gwyddoniaeth, Cymraeg ail iaith a pherfformiad bechgyn;

A2 gwella presenoldeb;

A3 cynyddu her addysgu i gyd-fynd â'r her a welir yn y gwersi gorau;

A4 gwella ansawdd a chysondeb y marcio a'r adborth a roddir i ddisgyblion;

A5 cynyddu atebolrwydd uwch reolwyr a rheolwyr canol am wella safonau ac ansawdd, trwy drefniadau rheoli llinell trylwyr;

A6 gwella craffter ac eglurder cynllunio gwelliant ar bob lefel, gan ddefnyddio targedau penodol a mesuradwy;

A7 cynllunio i ddatrys y diffyg yn y gyllideb yn effeithiol; a

A8 bodloni gofynion statudol ar gyfer y weithred ddyddiol o gyd-addoli.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen gwella'r ysgol hon yn sylweddol. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Er bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella yn y pedair blynedd diwethaf, mae'n parhau i fod islaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith a gwyddoniaeth yn wan ar y cyfan, ac nid yw'n cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg ar y lefelau uwch. At ei gilydd, nid yw cynnydd disgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol gystal ag ydyw mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad yn y dangosyddion hyn yn parhau i fod ychydig islaw cyrhaeddiad ysgolion tebyg. Mae canlyniadau Cymraeg mamiaith, Saesneg a mathemateg yn gyson uwch na'r rhai ar gyfer y teulu o ysgolion, ond mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod islaw perfformiad ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau ymhell islaw perfformiad ysgolion tebyg. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da ar y cyfan o gyfnodau allweddol blaenorol mewn dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Fodd bynnag, mewn dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau, yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd na'r disgwyl.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster ac mae cyfran uchel yn aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar ôl iddynt gyrraedd 16 oed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol yn 16 oed yr adroddir nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Mae perfformiad yn y chweched dosbarth yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion eraill tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae gwahaniaethau mawr rhwng perfformiadau merched a bechgyn. Yng nghyfnod allweddol 4 yn y dangosyddion sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â'r rhai mewn ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni'n dda. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn cyflawni'n dda hefyd.

Mewn lleiafrif o wersi, lle nad oes digon o her, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddeall cysyniadau newydd neu ddatblygu medrau fel darllen neu ysgrifennu'n ddigon da. Mae tua hanner y disgyblion yn galw gwaith blaenorol i gof yn gywir, ac yn adeiladu ar hyn i wneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth bynciol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda mewn grwpiau bach a pharau, ac maent yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar eu hathrawon. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn darllen yn rhugl, ond mae lleiafrif o

ddisgyblion yn ddarllenwyr amharod ac yn cael trafferth â geirfa sylfaenol. Mae disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol gyda'r anawsterau mwyaf mewn darllen yn gwneud cynnydd boddhaol erbyn diwedd cyfnod allweddol 3.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda ar lafar, ac yn meddu ar eirfa gyffredinol eang. Yn y mwyafrif o bynciau, mae disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod briodol o ffurfiau ac arddulliau, ac at amrywiaeth addas o ddibenion a chynulleidfaoedd. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o bynciau, nid yw disgyblion yn cynhyrchu digon o ysgrifennu estynedig, ac nid oes digon o amrywiaeth yn eu hysgrifennu. Mae mwyafrif o ddisgyblion fwy neu lai yn sillafu ac yn atalnodi yn unol â'u hoedran a'u gallu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn cymryd digon o ofal â'u gwaith, ac maent yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg sylfaenol yn rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cael cymorth targedig mewn llythrennedd yn gwneud cynnydd addas.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn gwella, ac yn 2011, roedd yn agos at gyfartaledd y teulu, ond yng nghyfnod allweddol 4, cyfran isel oedd yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn datblygu eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu'n briodol yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o'r rhain yr hyder i sgwrsio gyda'i gilydd, eu hathrawon neu oedolion eraill. Nid yw disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel ail iaith yn defnyddio'r Gymraeg mewn pynciau heblaw Cymraeg.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw yn iach. Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang iawn o weithgareddau corfforol, fel dawns a badminton, ac mae nifer dda iawn yn eu mynychu. Mae bron pob un o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio, ac maent yn teimlo eu bod yn rhydd oddi wrth gam-drin corfforol a llafar.

Mae disgyblion yn ymfalchïo mewn perthyn i'r ysgol ac mae bron pob un ohonynt yn gwrtais â'u cyfoedion, staff ac ymwelwyr, ac yn dangos parch atynt. Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, yn defnyddio'u hamser yn gynhyrchiol ar y cyfan, ac yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill i ddatblygu eu dealltwriaeth. Mae disgyblion hŷn yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol yn yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn cynlluniau gwerth chweil fel mentora cyfoedion.

Mae bron pob disgybl yn cyrraedd gwersi a chyfnodau cofrestru yn brydlon. Mae data nas gwiriwyd ar gyfer dechrau eleni yn dangos gwelliant o gymharu â'r un adeg y llynedd. Fodd bynnag, nid yw presenoldeb wedi gwella digon ers yr arolygiad diwethaf ac mae'n parhau i fod islaw perfformiad ysgolion tebyg.

Mae'r cyngor ysgol yn llawn cymhelliant, ac wedi ymrwymo i'w gyfrifoldebau. Mae wedi bod yn effeithiol yn dylanwadu ar benderfyniadau mewn meysydd fel datblygu polisi disgyblu newydd ac adolygu amseriad y diwrnod ysgol. Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn penodi staff newydd hefyd.

Caiff disgyblion eu cynnwys yn weithredol mewn prosiectau cymunedol, ac maent yn cefnogi elusennau lleol trwy ddigwyddiadau codi arian, fel ‘Her 5K Ysgol Uwchradd Aberhonddu’, y mae pob disgybl yn cymryd rhan ynddynt.  Caiff gweithgareddau o’r fath effaith gadarnhaol ar eu teimlad o gymuned a lles.

| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu:  Digonol**

Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 yn bodloni gofynion, ac mae ystod briodol o ddewisiadau galwedigaethol ac academaidd yng nghyfnod allweddol 4.  Mae nifer dda o ddisgyblion yn manteisio ar yr ystod fach o opsiynau galwedigaethol sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4.  Fodd bynnag, mae’r amserlen ar gyfer yr opsiynau galwedigaethol hyn a gweithgareddau cyfoethogi eraill yn golygu nad yw disgyblion yn mynychu gwersi mewn pynciau craidd yn rhy aml. Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth yn dilyn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru.  Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ennill cymwysterau medrau hanfodol.

Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a fynychir gan nifer dda o ddisgyblion, yn cynnwys y rhaglen ‘5x60’, gweithgareddau cerddoriaeth a drama.  Mae nifer dda o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymunedol ac elusennol gwerth chweil.

Mae pob disgybl yng nghyfnod allweddol 3 yn cymryd rhan mewn rhaglen sy’n anelu at ddatblygu ystod eang o fedrau fel cyfathrebu, defnyddio rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws pob pwnc.  Fodd bynnag, mae’r fenter hon yn rhy newydd i fod wedi cael effaith mewn darparu cysondeb a dilyniant ar gyfer dysgwyr.  Mae disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn cael rhaglen bersonol effeithiol i fodloni eu hanghenion unigol.  Fodd bynnag, dim ond rhai adrannau pwnc sy’n addasu gwaith yn briodol i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd y disgyblion hyn.

Rhoddir ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am faterion sy’n gysylltiedig â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn addysg bersonol a chymdeithasol, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, cyflwyniadau gwasanaeth, a thrwy gysylltiadau gwerthfawr â chwmni lleol y fyddin.  Mae eco-bwyllgor gweithgar yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol lleol yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol.  Mae holl ddisgyblion cyfnod allweddol 4 yn dilyn y cwrs Cymraeg llawn mewn TGAU.
Mae rhai disgyblion yn dilyn y cwrs mamiaith yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

Mae cynlluniau gwaith ym mhob cyfnod allweddol yn cynnig cyfleoedd priodol i ddysgu am y dimensiwn Cymreig.  Fodd bynnag, nid yw’r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd eto yn hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg ym mywyd yr ysgol.

## Addysgu: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn datblygu perthynas waith dda iawn gyda'u disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol i brocio ac ymestyn dealltwriaeth. Mae strwythur clir i fwyafrif o wersi, maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau dysgu a lefel addas o her. Mae mwyafrif o athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion unigol disgyblion, ac maent yn gweddu gwaith i'w gallu yn ofalus. Mewn rhai gwersi, mae athrawon yn herio disgyblion i gyrraedd y lefelau cyrhaeddiad uchaf, ac yn ennyn eu diddordeb trwy ystod o weithgareddau ysgogol a heriol.

Nid yw lleiafrif o wersi yn cynnwys her, ac maent yn symud yn rhy araf. Yn y gwersi hyn, ni chaiff y gwaith ei weddu'n agos i fodloni anghenion gwahanol alluoedd y disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud digon o gynnydd yn datblygu eu gwybodaeth bynciol a'u medrau. Mewn rhai gwersi, mae gormod o gyfarwyddyd gan yr athro yn cyfyngu ar ddatblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol. Mewn ychydig iawn o wersi, nid yw athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn ddigon da, ac nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd priodol.

Mae ansawdd marcio gwaith disgyblion yn anghyson. Rhoddir adborth priodol i fwyafrif o ddisgyblion am y cynnydd y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Fodd bynnag, dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae disgyblion yn gwneud cywiriadau i wella eu gwaith, ac nid yw llawer o athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gweithredu yn unol â'r cyngor a roddant. Gwelwyd rhai enghreifftiau effeithiol o athrawon yn annog disgyblion i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Fodd bynnag, ni chaiff yr arfer hon ei chymhwyso'n gyson gan ddigon o athrawon ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi mireinio ei system ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar. Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i staff, gan amlygu cynnydd gwahanol grwpiau o ddisgyblion. Mae'r system hon yn galluogi athrawon i roi ymyrraeth a hyfforddiant priodol i ddisgyblion a nodwyd.

Rhoddir gwybodaeth reolaidd i rieni am gynnydd eu plentyn. Mae'r adroddiadau blynyddol yn fanwl iawn gyda sylwadau buddiol. Mae'r rhan fwyaf o dargedau ar gyfer gwella yn benodol a buddiol. Fodd bynnag, nid yw rhai ohonynt yn rhoi arweiniad digon clir ynglŷn â sut i wella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol sy'n cael effaith gadarnhaol ar rai agweddau ar les a datblygiad personol disgyblion. Fodd bynnag, nid yw strategaethau i wella presenoldeb disgyblion wedi cael digon o effaith ers yr arolygiad diwethaf.

Mae ystod o brofiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad moesol disgyblion yn dda. Mae hyn yn cynnwys dull yr ysgol o ddatrys anghydfod sy'n canolbwyntio ar bryderon yr holl unigolion dan sylw ac yn anelu at ailsefydlu perthynas gadarnhaol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar berthnasoedd disgyblion gyda'i gilydd a gyda staff. Mae gwasanaethau a sesiynau tiwtorial yn cynnig cyfleoedd priodol ar gyfer myfyrio ac yn helpu i hyrwyddo datblygiad ysbrydol disgyblion.

Mae'r ysgol yn helpu disgyblion i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, gyda lefelau uchel o gyfranogiad, yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad disgyblion mewn chwaraeon a'u datblygiad diwylliannol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i fodloni anghenion penodol disgyblion unigol. Mae amrywiaeth eang o asiantaethau cymorth sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol disgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol yng 'nghanolfan les' yr ysgol. Mae rhaglen gynhwysfawr o anogwyr dysgu yn cefnogi cynnydd academaidd disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol i ddisgyblion a rhieni ynglŷn ag opsiynau a llwybrau gyrfa.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu.

Mae'r broses adolygu flynyddol ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn bodloni'r gofynion statudol. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysgol unigol yn nodi targedau dysgu priodol bob amser. Mae athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth yn cynnig cymorth da, targedig ar gyfer unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae disgyblion ag awtistiaeth sy'n manteisio ar sylfaen adnoddau arbenigol yr awdurdod lleol yn cymryd rhan yn llawn ym mywyd yr ysgol. Cânt eu cefnogi'n effeithiol iawn i wella eu medrau personol a chymdeithasol, ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd da iawn dros gyfnod. Mae systemau priodol ar waith i sicrhau bod rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am addysg eu plentyn.

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofyniad statudol ar gyfer gweithred ddyddiol o gyd-addoli.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hynod gynhwysol sy'n gwerthfawrogi amrywiaeth ei disgyblion. Gyda'i gilydd, mae staff a disgyblion yn hyrwyddo ethos gofalgar a chryf, sydd wedi'i seilio'n gadarn ar barch ar y ddwy ochr ac yn galluogi disgyblion i integreiddio'n eithriadol o dda. Er enghraifft, bob blwyddyn, mae rhwng pedwar a chwech o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol o deuluoedd Cwmni Gurkha Mandalay, sydd wedi'u lleoli'n lleol, ac mae'r disgyblion hyn yn ymgynefino'n gyflym â bywyd yr ysgol ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr yn effeithiol mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Mae tu allan adeilad yr ysgol mewn cyflwr gwael. Fodd bynnag, mae gan yr ysgol adnoddau priodol ac mae arddangosiadau o waith a chyflawniadau disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd croesawgar.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae strwythur ac aelodaeth yr uwch dîm arweinyddiaeth wedi newid yn sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf. Bydd y tîm arweinyddiaeth dros dro yn weithredol nes bydd y pennaeth a benodwyd yn ddiweddar yn dechrau ar ei rôl ym Medi 2012.

Mae'r cyd-benaethiaid dros dro wedi arwain yr ysgol yn sensitif trwy gyfnod anodd o newid ac ansicrwydd. Gyda'i gilydd, maent wedi gwella morâl y staff, ac mae eu harweinyddiaeth yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau mewn rhai meysydd pwysig, fel presenoldeb a deilliannau o arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4.

Mae strwythur rheoli llinell clir, ac mae mwyafrif o uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu dealltwriaeth o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Cynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod cynllunio a chynnydd. Mae gan yr ysgol systemau priodol i reoli perfformiad. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn dwyn y staff y maent yn rheolwyr llinell arnynt i gyfrif yn ddigon trylwyr am wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth ymhlith rheolwyr canol yn rhy amrywiol, ac nid yw lleiafrif o arweinwyr canol yn canolbwyntio digon ar fynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella fel ansawdd yr addysgu a'r asesu.

Er nad yw'r corff llywodraethol wedi herio'r ysgol yn ddigonol i wella mewn meysydd pwysig, yn cynnwys safonau a chyllid ers yr arolygiad diwethaf, mae ganddo olwg glir nawr ar faint y mae angen i'r ysgol wella. Mae eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio data yn effeithiol i herio adrannau yn datblygu'n dda. Mae trefniadau ar gyfer cysylltu llywodraethwyr unigol ag adrannau pwnc yn awr yn canolbwyntio mewn modd defnyddiol ar wella safonau.

Mae'r ysgol wedi datblygu polisïau a mentrau yn ddiweddar i fodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys codi lefelau llythrennedd a defnyddio'r iaith Gymraeg. Caiff yr ysgol ei chynnwys yn briodol yng nghynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 oed.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol amserlen addas o weithgareddau hunanarfarnu ysgol gyfan wedi'u trefnu, sy'n cynnwys systemau priodol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r rhain yn cynnwys casglu tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi, arolygon disgyblion a rhieni a chraffu ar waith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau hyn yn canolbwyntio digon ar feysydd pwysig fel cynnydd disgyblion neu ansawdd yr asesu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn arfarnol ac yn cynnwys dadansoddiad manwl a chywir o ddata perfformiad. Mae'n addas o hunanfeirniadol ac yn mynd ati'n gywir i nodi llawer o feysydd i'w gwella, yn ogystal â chryfderau.

Mae'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn darparu dadansoddiad trylwyr o ddeilliannau arholiadau ac asesu yn eu hadroddiad hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae'r gofynion ar gyfer adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn rhy fiwrocrataidd. Yn ychwanegol, mae ansawdd yr adroddiadau hyn yn rhy amrywiol, ac nid yw lleiafrif ohonynt yn arfarnu meysydd pwysig, fel ansawdd yr addysgu a'r asesu, yn ddigon trylwyr.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn cynnwys camau addas i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r targedau ar gyfer gwella bob amser yn ddigon penodol na mesuradwy. Yn gyffredinol, nid yw meini prawf llwyddo mewn cynlluniau

datblygu adrannol yn ddigon penodol na mesuradwy. Yn ychwanegol, nid yw'r cysylltiad rhwng yr adroddiadau hunanarfarnu ysgol gyfan ac adrannol a chynlluniau gwella dilynol yn ddigon clir bob amser.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at fodloni tua hanner o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd mewn argymhellion sy'n ymwneud â chodi safonau, codi disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni neu wella gweithdrefnau asesu.

Mae lleiafrif o athrawon yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol y tu allan i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar bontio a chynhwysiant. Ar draws yr ysgol, mae nifer o grwpiau wedi dechrau gwaith ar weithgareddau gwella ysgol sydd wedi'u cysylltu'n addas â blaenoriaethau ar gyfer gwella, fel gwella cyrhaeddiad bechgyn. Mae pob un o'r staff addysgu yn aelodau o un o'r grwpiau hyn o leiaf ac fe gânt hyfforddiant priodol i gefnogi'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld yr effaith ar ddysgu'r disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau gwerthfawr gydag ystod eang o asiantaethau a sefydliadau arbenigol. Mae'r cysylltiadau hyn yn arbennig o effeithiol wrth gefnogi dysgwyr sy'n fwy agored i niwed ac wrth eu hannog yn llwyddiannus i ymgymryd ag addysg.

Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol gyda'i saith ysgol gynradd bartner. Er enghraifft, mae cyfres o brosiectau pwnc gwerth chweil yn cysylltu cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Mae'r rhain yn cefnogi dilyniant a pharhad mewn dysgu yn briodol ac yn helpu i rannu adnoddau ac arbenigedd yn effeithiol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gyfnod pontio disgyblion ac mae'n helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r coleg addysg bellach lleol ac ysgolion uwchradd eraill i ddatblygu cyfleoedd cwricwlaidd ehangach ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4 a chweched dosbarth. Mae rhai disgyblion yn manteisio ar yr opsiynau hyn.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol gyda'r ysgol arbennig leol, sydd o fudd da i'r disgyblion. Er enghraifft, mae rhai disgyblion o Ysgol Uwchradd Aberhonddu yn defnyddio cyfleusterau yn yr ysgol arbennig i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon amgen. Yn ychwanegol, mae'r bartneriaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i staff o Ysgol Uwchradd Aberhonddu ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda rhieni, y gymdeithas rhieni ac athrawon, darparwyr addysg gychwynnol i athrawon ac ystod eang o sefydliadau a grwpiau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys rôl weithgar yr ysgol yn hyrwyddo cydweithio â chanolfan leol y fyddin. Mae disgyblion yn elwa ar y bartneriaeth hon trwy weithgareddau gwerthfawr, fel cyrsiau preswyl ar gyfer Llu Cadetiaid y Fyddin, ac wrth ddatblygu medrau gweithio mewn tîm.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae diffyg o ryw dri chwarter miliwn o bunnoedd yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd. Mae mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn wedi cynnwys gostyngiad priodol mewn personél a gwelliannau eraill mewn effeithlonrwydd. Cyflawnwyd hyn heb danseilio gallu'r ysgol i addysgu'r cwricwlwm. Mae gan yr ysgol gynlluniau a rheolaethau cyllidebu priodol ar waith i sicrhau bod gwariant presennol o fewn cyfyngiadau a gytunwyd. Mae'r rheolwr cyllid a phwyllgor cyllid y llywodraethwyr yn awr yn cyfrannu'n briodol at benderfyniadau ariannol.

Dyrennir cyllidebau adrannau trwy fformiwla a ddeellir yn dda, er nad yw blaenoriaethau'n glir bob amser ac nid ydynt yn cynnwys costau. Er bod lefelau gwell o effeithlonrwydd a chost effeithiolrwydd, nid oes gan yr ysgol gynllun addas i fynd i'r afael â'r diffyg sylweddol yn y gyllideb. Yng ngoleuni'r safonau digonol a'r diffygion sylweddol mewn trefniadau cyllidebu, mae'r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf, ond mae'n parhau'n gyson yn y chwarter gwaelod o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim.  Yn 2011, roedd y dangosydd pwnc craidd islaw'r cyfartaledd ar gyfer ei deulu o ysgolion a disgwyliadau wedi'u modelu.

Bu gwelliant mewn perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf.  Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn parhau i fod islaw cyfartaleddau'r teulu.  Yn 2011, roedd perfformiad mewn mathemateg yn yr hanner gwaelod o ran perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg tra roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth a Saesneg yn y chwarter gwaelod o ran perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.  Ar lefel 6 ac yn uwch, roedd perfformiad mewn Saesneg, Cymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth islaw cyfartaleddau'r teulu.  Llwyddodd cyfran fechan o ddisgyblion i gyflawni lefel 7 neu'n uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.  Fodd bynnag, ni chyflawnodd yr un disgybl lefel 7 mewn Cymraeg mamiaith yn 2011.  At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol o'r cyfnod allweddol blaenorol.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae safonau llafaredd a darllen wedi gostwng yn y tair blynedd diwethaf ac maent islaw cyfartaledd y teulu.  Fodd bynnag, mae safonau mewn ysgrifennu wedi gwella yn y tair blynedd diwethaf ac maent yn debyg i gyfartaledd y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.  Yn 2011, roedd yn debyg i gyfartaledd y teulu, ond yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.  Mae'r perfformiad hwn islaw disgwyliadau wedi'u modelu.  Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ac yn 2011 roedd yn unol â chyfartaledd y teulu.  Fodd bynnag, mae wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner is neu'r chwarter gwaelod o ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim am y pum mlynedd diwethaf.  Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio islaw cyfartaleddau'r teulu a'r awdurdod lleol ac yn y chwarter gwaelod o gymharu â lefelau perfformiad ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf, ond yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter meincnod yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf.  Fodd bynnag, yn 2011, roedd ychydig islaw cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter meincnod gwaelod o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg yn gyson uwchlaw cyfartaledd y teulu, ond yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg o ran meincnodau prydau ysgol am ddim.  Mae perfformiad mewn mathemateg ar lefel 2 wedi amrywio er 2008, ac yn 2011, roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu ond yn yr hanner gwaelod o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.  Mae gwyddoniaeth ar

lefel 2 wedi amrywio yn y pedair blynedd diwethaf, ac mae wedi bod yn gyson islaw cyfartaledd y teulu ac yn y chwarter meincnod gwaelod o gymharu ag ysgolion tebyg.

O gymharu â'u perfformiad mewn cyfnodau allweddol blaenorol, mae dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da yn nhrothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg, a chynnydd boddhaol yn nhrothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio.

Mae canran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster yn 2011 yn isel ac mae'n debyg i gyfartaledd y teulu. Yn y chweched dosbarth, llwyddodd canran uchel iawn o ddisgyblion y chweched dosbarth i gyflawni trothwy lefel 3 yn 2011. Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y sgôr pwyntiau ehangach yn well na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn perfformio'n waeth na merched bron ym mhob dangosydd. Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y dangosydd pwnc craidd yn fwy na chyfartaledd y teulu. Mae hyn oherwydd perfformiad mewn Saesneg, gwyddoniaeth a Chymraeg mamiaith.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae merched yn perfformio gryn dipyn yn well na bechgyn yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg, ac yn y dangosydd pwnc craidd. Yn 2011, roedd y gwahaniaeth ym mherfformiad bechgyn a merched gryn dipyn yn ehangach na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn perfformio uwchlaw cyfartaledd y teulu yn nhrothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Mae disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn gwneud cynnydd boddhaol. Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da.

Mewn Cymraeg ail iaith yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad yn gwella, ac yn 2011, roedd yn debyg i gyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 4, cyfran isel oedd yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cafodd Estyn ymatebion gan 200 o ddysgwyr, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn nodi bod rhywun y gallant droi ato/ati os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae llawer o ddisgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn credu eu bod yn gwneud yn dda a bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb. Mae llawer ohonynt yn credu bod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer, a dywed mwyafrif ohonynt fod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith. Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 a'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo eu bod wedi cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth.

Dywed llawer o ddisgyblion fod digonedd o gyfleoedd i wneud ymarfer corff yn rheolaidd, ac maent yn nodi bod yr ysgol yn eu haddysgu i fod yn iach. Dywed mwyafrif o ddysgwyr fod staff yn eu trin yn deg ac yn dangos parch atynt, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae mwyafrif y dysgwyr yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn dweud hefyd fod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i ffigurau o ysgolion uwchradd eraill.

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Cafodd Estyn 82 o ymatebion i'r holiadur i rieni. Er i rieni ymateb yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i'r cwestiynau, nid oedd mwyafrif yr ymatebion mor gadarnhaol â'r ymatebion gan rieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn hoffi'r ysgol. Dywed y rhan fwyaf o rieni fod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda, a dywed bron pob un o'r rhieni fod eu plant wedi cael cymorth i ymgynefino'n dda pan wnaethant ddechrau yn yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn credu bod ystod dda o weithgareddau a bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni'n credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da. Mae llawer ohonynt yn credu bod disgwyliadau staff yn dda a bod gan staff ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae llawer o rieni'n credu bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, ond mae'r gyfran hon gryn dipyn yn is nag ydyw mewn

ysgolion eraill.  Dywed llawer ohonynt fod gwaith cartref yn atgyfnerthu'r dysgu a bod staff yn trin pob plentyn yn deg ac yn eu parchu.  Mae llawer o rieni'n teimlo bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol lle bydd angen, a dywed y rhan fwyaf ohonynt fod eu plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu'r coleg.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Ceri Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Sue Halliwell | Arolygydd Tîm |
| Meinir Rees | Arolygydd Tîm |
| Sue Morgan | Arolygydd Tîm |
| Denise Whiting-Wade | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Euryn Madoc-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Vikki Prosser | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion |

| | |
|---|---|
| | tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |